OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 541 (Cy. 65)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27, Sir Ddinbych i Gyffordd 31, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed	*7 Mawrth 2014*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mawrth 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27, Sir Ddinbych i Gyffordd 31, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 16 Mawrth 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) yn Sir Ddinbych a Chyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Mawrth 2014

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) hyd at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 30 (Cyffordd Traveller's Inn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Coed Bach.

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 29 (Cyffordd Glan Llyn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Pont y Waun).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 27a (Cyffordd Pont Dafydd).

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 1.6 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 hyd at ganolbwynt Cyffordd 27.